# JONES, DAVID (1803 - 1868), baledwr a chantwr pen ffair



**Enw:** David Jones
**Dyddiad geni:** 1803
**Dyddiad marw:** 1868
**Rhiant:** David Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** baledwr a chantwr pen ffair
**Maes gweithgaredd:** Cerddoriaeth; Perfformio; Barddoniaeth
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn 1803 ar stad y Dolau Bach, Llanybydder, yn fab i David Jones, saer coed. Collodd ei olwg trwy ddamwain, ac adwaenid ef fel 'Dewi Dywyll' a 'Dewi Medi.'

Yr oedd yn gantwr adnabyddus iawn ym mhob rhan o Gymru; y mae disgrifiad ohono yn *Cymru O.M.E.*), xxix, 158. Bu farw yn Llanbedr-Pont-Steffan yn 1868. Y mae 66 o'i gerddi ar gael.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau


B. B. Thomas, *Baledi Morgannwg* (1951), 118 - a'r faled rhif xiii

'Rhestr o faledi rhai o brif faledwyr Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg,' *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, vii, 55-60, 85

'Baledi y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Addenda),' *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, viii, 104


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20738035


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a

Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu